# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Mehefin 6ed 2023 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Sarnau.

Presennol: Eifion Davies (cadeirydd), Maldwyn Jones, Eilir Rowlands, Bethan Thomas, Gwynedd Jones, Gwenda Morris, Rita Jones, Iolo V. Evans, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwenda Evans, Alwyn Jones.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 2il 2023) **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant – **Dim.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Mynwentydd
i) Cais grant Cronfa Melinau Gwynt Clocaenog – **yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ganolbwyntio ar asesu cyflwr y coed a'r wal gynnal ym mynwent Llanfor, gofynnwyd i'r Clerc ymgysylltu a'r swyddogion priodol i ofyn am gyngor. Cais grant i Gronfa Cymunedau Eryri – gan fod tipyn mwy o waith ym mynwent Llanfor na thybwyd, penderfyniwyd gwneud cais am arian i'r gronfa ar gyfer gwneud gwelliannau i fynwent Frongoch, gan gynnwys llwybr troed newydd, torri a thocio coed, mainc a bwrdd gwybodaeth newydd a phlannu blodau. Gan fod amser yn brin gofynnwyd i'r clerc wneud y cais a chael prisiau ar gyfer y gwaith cyn gynted a phosib.**
ii) Cerrig beddi mynwent Llandderfel – **diolchwyd i'r cynghorwyr Alwyn Jones ac Eilir Rowlands am eu gwaith yn y fynwent.**

iv) Gohebiaeth
a) Fferm Wynt Gaerwen.
i) Diweddariad gan RWE– **nodwyd fod y nifer o dyrbinau wedi lleihau i 9 ond byddai dau ohonnynt yn cynyddu yn eu huchder i 200m. Nid oeddynt bellach yn archwilio potensial ynni solar ar y safle.**

b) Cwmni Pum Plwy Penllyn.
i) Cynrychiolwyr y Cyngor – **gan nad oedd Gwynedd Jones yn dymuno parhau i gynrychioli'r Cyngor ar y pwyllgorau cytunodd Rita Jones gymryd ei le.**
ii) Camera Cylch Cyfyng **– trafodwyd cais gan yr Heddlu i gael camera wrth yr Orsaf Dan i arswyli traffig yn mynd i mewn ac allan o'r dre. Cytunwyd yn unfrydol fod hyn yn syniad da, yn enwedig ar ol yr achosion o ladrata yn ddiweddar. Cytunwyd i gyfrannu arian tuag at y cynllun os byddai angen.**

c) Cyngor Gwynedd.
i) Cynllun Rhannu Cartref.
ii) Rhybuddion cau ffordd dros dro.
iii) Digwyddiad 'Ardal Ni 2035' Dalgylch Bala Penllyn - 25.5.2023

ch) Un Llais Cymru.
i) Rheolau Sefydlog Newydd – **Cymeradwywyd i'w mabwysiadwy.**

d) Amrywiol
i) Parc Cenedlaethol Eryri - Gweminar Aelodau Cynghorau Cymuned - Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, 8/6/23.
ii) Eglwys y Drindod Sanctaidd Penrhyndeudraeth – Ardd Llonyddwch.
iii) Dŵr Cymru, - diweddariad Llyn Celyn.

v) Ceisiadau Cynllunio
a) C23/0409/04/LL – Adeiladu annedd amaethyddol Newydd. Parc Y Derw Goed, Llandderfel.
b) NP5/63/237D – Uwchraddio offer telathrebu i fast presennol gan gynnwys antenna, polyn cynnal a Gwaith cysylltiedig. Tir ger Ciltalgarth, Frongoch.
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol.**

vi) Materion Ariannol

a) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol - **roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n casglu'r holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad allannol. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.**
b) Ceisiadau Ariannol – SSAFA (The Armed Forces Charity) – **cytunwyd i'w drafod gyda gweddill o'r ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.**

vii) Materion lleol.
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

## CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH GORFFENNAF 4YDD YN NEUADD SARNAU.